SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

# Menter ar y Cyd
# rhwng
# Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
# a Heddlu Gogledd Cymru

EICH CYMUNED EICH DEWIS
YOUR COMMUNITY YOUR CHOICE

## Cronfa Partneriaeth Gymunedol Gogledd Cymru 2023/24

## Cefnogi prosiectau sy'n atal a lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol "Daioni o Ddrygioni"

## PECYN CAIS

GOGLEDD CYMRU PACT NORTH WALES

Mewn cydweithrediad ag

**Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned**

Elusen Gofrestredig Rhif 1071028

**Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru Eich Cymuned Eich Dewis**

**Cyflwyniad gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Andy Dunbobbin a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol Chris Allsop, Heddlu Gogledd Cymru**

Unwaith eto, rydym wrth ein bodd yn gwahodd sefydliadau cymunedol i gyflwyno eu ceisiadau i'n cronfa gymunedol flynyddol sef 'Eich Cymuned, Eich Dewis'. Hon fydd y nawfed flwyddyn yn olynol i'n cronfa hynod lwyddiannus. Dros y deg mlynedd ddiwethaf, rydym wedi buddsoddi dros £500,000 ledled gogledd Cymru sydd wedi arwain at prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n cymunedau.

Eleni rydym eto'n gwneud £60,000 ar gael i gynorthwyo prosiectau ledled Gogledd Cymru sy'n anelu i gadw'n cymunedau'n ddiogel a chynorthwyo ein Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae 'Eich Cymuned, Eich Dewis' yn fenter ar y cyd sydd wedi bod yn bosibl gyda nawdd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Ceir hefyd arian a oedd ar gael drwy asedau a atafaelwyd gan droseddwyr o dan y Ddeddf Enillion Trosedd. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb ymroddiad ac ymrwymiad y swyddogion a sta Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio'n ddiflino i ddod â throseddwyr o flaen eu gwell.

Yn benodol, rydym eisiau gweld cynigion sy'n cynorthwyo i atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau a chynorthwyo gwaith ein Timau Plismona Cymdogaethau. Mae RHAID i ymgeiswyr drafod eu syniadau gyda'u timau plismona lleol cyn cyflwyno cais.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar gynorthwyo prosiectau sy'n cynorthwyo datblygu cymunedau cydnerth ac nid yw eleni'n wahanol. Rydym yn credu, drwy weithio gyda'n gilydd, y gallwn wneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y DU i fyw, gweithio a chwarae ynddo. Mae gan sefydliadau cymunedol fel eich un chi rôl hanfodol i'w chwarae wrth wireddu hyn drwy gynorthwyo'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Heddlu a Throsedd. Rydym yn annog sefydliadau cymunedol i ymgeisio am nawdd ar gyfer prosiectau a fydd yn cael effaith gadarnhaol – yn enwedig y rhai hynny sydd â gweledigaeth tymor hir sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein hardal a chydweithio gyda phobl eraill er mwyn atal problemau rhag digwydd.

Wrth ddatblygu eich cynnig, ystyriwch sut fydd yn cynorthwyo blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd presennol a geir ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Police and Crime Plan 2021 (northwales-pcc.gov.uk)

Ein tair blaenoriaeth plismona yw:

- Cymdogaethau Diogelach
- Cefnogi dioddefwyr a chymunedau
- System Cyfiawnder Troseddol effeithiol a theg

Gwnai y cyhoedd unwaith eto benderfynu pa gynigion sy'n llwyddiannus. Felly byddwch angen sicrhau fod eich rhwydwaith o gefnogwyr yn pleidleisio i chi drwy wefan Heddlu Gogledd Cymru pan mae'r cyfnod pleidleisio'n agor.

Diolch yn fawr hefyd i'n partneriaid yn Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (PACT) sydd, unwaith eto, yn gweinyddu'r gronfa ar ein rhan.

gronfa eleni. Yn 2023 bydd PACT yn dathlu 25 mlwyddiant yng Ngogledd Cymru ac yn parhau i gyflenwi Eich Cymuned, Eich Dewis yn y flwyddyn arbennig hon.

Diolch yn fawr am eich diddordeb, dymunwn bob llwyddiant i chi gydag eich cais.

Andy Dunbobbin
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Chris Allsop
**Prif Gwnstabl Cynorthwyol**



Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg.

**Nodwch y Meini Prawf a'r Canllawiau canlynol:**

1. Nod 'Eich Cymuned, Eich Dewis' yw cynorthwyo grwpiau/sefydliadau cymunedol lleol gyda nawdd, a benderfynir drwy bleidlais gyhoeddus. Mae hyn er mwyn datblygu prosiectau newydd neu rai sydd eisoes yn bodoli er mwyn gwella ansawdd bywyd yn y cymunedau lleol.

   Disgwylir i bob cynnig gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throsedd presennol ac annog a datblygu partneriaethau gwaith cadarnhaol sy'n cynorthwyo cefnogi'r Cynllun Heddlu a Throsedd presennol (2021-2). Cewch y Cynllun Heddlu a Throsedd presennol ar:

   Police and Crime Plan 2021 (northwales-pcc.gov.uk)
2. Y swm uchaf sydd ar gael yw: –

   £2,500.00 ar gyfer ymgeiswyr unigol o'r siroedd (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam)

   £5,000.00 ar gyfer ymgeiswyr ar draws Gogledd Cymru (gan weithio mewn tair sir neu fwy). (DS: cwestiwn ychwanegol rhif 23 i ymgeiswyr yn y categori hwn)
3. Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr fod yn sefydliad gwirfoddol cyfansoddiadol, yn gr  p cymunedol neu'n elusen sy'n gweithio yng Ngogledd Cymru. Mae cynghorau tref a chymuned yn gymwys hefyd ond mae RHAID iddynt ddangos tystiolaeth o gyllid cyfatebol priodol. **RHAID** iddynt hefyd gael eu cyflwyno drwy Glerc neu Gadeirydd y Cyngor.

   Noder: efallai y gofynnir i chi ddarparu copi o'ch cyfrifon a'ch cyfriflen banc diweddaraf.
4. Dylai ymgeiswyr nodi:
   a) Sut bydd eich prosiect yn cyfrannu tuag at leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich ardal a chynorthwyo'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd presennol
   b) Sut ydych wedi tystiolaethu'r angen ar gyfer eich prosiect
   c) Manteision y prosiect i'r gymuned leol
   d) Pwy fydd yn elwa o'r prosiect
   e) Oedrannau'r bobl a fydd ynghlwm wrth y prosiect
   f) Partneriaethau/asiantaethau sy'n gysylltiedig â/cefnogi eich prosiect
   g) Mae'n rhaid i ymgeiswyr drafod eu cais gyda'r tîm plismona lleol a chael cefnogaeth yr Arolygydd ardal cyn cyflwyno
   h) **Ni ystyrir ceisiadau am CCC**
5. Mae'n rhaid i'r ceisiadau gynnwys dadansoddiad ariannol llawn sy'n cynnwys manylion ynghylch sut bydd yr arian yn cael ei wario e.e. o  er, teithio, costau sta   ayyb. Nodwch os ydych wedi cael, neu yn y broses o gael unrhyw nawdd cyfatebol.
6. Os oes unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn iau na deunaw oed, bydd rhaid i'r gr  p gael cefnogaeth oedolion sydd wedi cael eu gwirio'n briodol. Cadarnhewch yn eich cais bod hyn wedi'i wneud.
7. **Gall rhai sydd wedi ymgeisio o'r blaen wneud, ond rhaid i'w cynnig fod ar gyfer darn o waith newydd ac arloesol.**
8. Os ydych eisiau trafod eich syniad, cysylltwch â Dave Evans ar 01745 588516 neu anfonwch e-bost at yourcommunityyourchoice@nthwales.pnn.police.uk
9. Bydd penderfyniadau'r Panel a'r cyhoedd sy'n pleidleisio yn derfynol. Ni ellir trafod ceisiadau aflwyddiannus. Caniateir uchafswm o bedair pleidlais am bob t  /cyfeiriad ISP i bob cartref.
10. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn   urflenni cais yw: 12.00yh, 11 Rhagfyr  2023.
11. Rhaid i brosiectau gael eu cwblhau, ac arian grant wedi'i wario, erbyn 30 Medi 2023.
12. Bydd rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus arwyddo a dychwelyd ein taflen Telerau ac Amodau safonol (Atodiad A).
13. Dylech ddychwelyd y   urflen gais drwy **e-bost at**: yourcommunityyourchoice@nthwales.pnn.police.uk

Neu drwy'r **post** at:

Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned, Swyddfa PACT, Ffordd William Morgan,Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy

Sir Ddinbych, LL17 0HQ

## Eich Cymuned, Eich Dewis 2023/24

## Grantiau:

**Ymgeiswyr sir:**

Uchafswm cais am grant £2,500.00

Bydd y tri gr  p ymhob sir gyda'r mwyaf o bleidleisiau yn llwyddiannus

**Ymgeiswyr ledled Gogledd Cymru:**

Yr uchafswm cais grant yw £5,000.00

Bydd y tri gr  p gyda'r mwyaf o bleidleisiau'n llwyddiannus

**Amserlen**

(gall dyddiadau newid)

| | |
|---|---|
| **Cyfnod derbyn ceisiadau:**<br>Agor<br>Cau | <br>16.11.23<br>11.12.23 |
| **Asesiadau ceisiadau:** | Wythnos yn cychwyn 11.12.23 |
| **Hysbysu ymgeiswyr ynghylch penderfyniadau:** | Wythnos yn cychwyn 18.12.23 |
| **Cyfnod pleidleisio cyhoeddus ar y rhyngrwyd:**<br>Agor<br>Cau<br>Caniateir uchafswm o bedair pleidlais y cartref/ cyfeiriad ISP ar gyfer prosiectau | <br>08.01.24<br>26.01.24 |
| **Cyhoeddi'r Ymgeiswyr Llwyddiannus:**<br>Cyflwyno sieciau i'r ymgeiswyr llwyddiannus ym<br>Mhencadlys yr Heddlu, Bae Colwyn | Wythnos yn cychwyn 29.01.24<br>Chwefror 2024 |

**Noder:** Byddwn yn hysbysu ymgeiswyr os bydd unrhyw ddyddiadau yn newid.

## MANYLION Y CAIS

**1. Sefydliad:**

**2. Cyfeiriad** (gan gynnwys cod post):

**3. Manylion Cyswllt**

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Swydd yn y sefydliad: | |
| E-bost: | |
| Rhif Ffôn: | |
| Rhif Ffôn Symudol: | |

**4. Teitl y Prosiect:**

**5. Y swm y gofynnir amdano:**

**6.A yw hwn yn gais am:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arian ar gyfer noddi'r prosiect yn llawn: | | Rhan o'r Swm/Nawdd Cyfatebol: | |

**7. Rhowch ddisgrifiad o'ch sefydliad:**

**a)** (Os ydyw'n Elusen Gofrestredig neu'n Gwmni Buddiannau Cymunedol nodwch y rhif cofrestru)

**b)** Pryd gafodd eich sefydliad ei sefydlu?

**c)** Faint o aelodau sydd ar eich Pwyllgor/Bwrdd Ymddiriedolwyr?

**d)** Faint o unigolion sy'n gorfod awdurdodi taliad neu arwyddo siec?

**e)** Os bydd y cais hwn yn llwyddiannus nodwch i bwy y dylem wneud y siec yn daladwy:

**8. Eich prosiect:**

Disgrifiwch y gweithgareddau neu'r gwasanaethau rydych yn gofyn i ni eu hariannu a pha broblem rydych yn ceisio ymdrin â hi. Dywedwch wrthym pa **wahaniaeth** y gwnaiff eich prosiect ei wneud i'ch cymuned, y **problemau** mae'n ceisio ei oresgyn a sut y gwnaiff gynorthwyo i **gryfhau** cymunedau cydnerth. (Dangoswch yr allbynnau a'r canlyniadau y gwnaiff eich prosiect gyflawni) (Uchafswm o 500 gair)

**9.** Dywedwch wrthym pa flaenoriaeth yn y Cynllun Heddlu a Throsedd mae eich prosiect yn anelu ei gynorthwyo a sut fydd yn gwneud hyn: (Uchafswm o 500 gair)

**10.** Sut ydych wedi nodi'r angen am y prosiect (rhowch dystiolaeth): (Uchafswm o 500 gair)

**11. Lle fydd eich prosiect yn cael ei gynnal?**

(dywedwch hefyd ym mha sir/ ar gyfer prosiectau gogledd Cymru i gyd, a wnewch chi gadarnhau'r ardaloedd a'r siroedd y byddwch yn gweithio ynddynt)

**12. Pryd fydd y prosiect yn cael ei gynnal?**

(Nodwch y dyddiadau dechrau/gorffen)

**13. Faint o bobl fydd yn gysylltiedig â darparu'r prosiect?**

(Nodwch hefyd yr ystod oedran)

**14. Faint o bobl fydd yn elwa o'ch prosiect?**

(Nodwch hefyd yr ystod oedran)

**15. Ydy'ch prosiect yn rhoi sylw i anghenion unrhyw grŵp penodol?**

(Nodwch sut)

**16. Bydd angen i chi drafod eich prosiect gyda'ch tîm plismona cymdogaethau diogelach lleol, a chael cymorth a chymeradwyaeth eich Arolygydd Ardal.**

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn gweithio gyda'ch tîm plismona lleol i gyflwyno eich prosiect.
Cadarnhewch isod fanylion eich trafodaethau gan gynnwys enwau'r swyddogion perthnasol
Bydd eich cynnig angen cefnogaeth eich Arolygydd Ardal – Adran 17 (Uchafswm o 200 gair)

**17.** Sylwadau/Cymeradwyaeth Arolygydd Ardal

**18.** Gweithio mewn Partneriaeth: Dywedwch pa bartneriaethau/asiantaethau eraill fydd yn rhan o'ch prosiect, a beth yw eu rolau.

**19.** Dywedwch wrthym sut byddwch yn monitro ac yn gwerthuso'ch prosiect. (Uchafswm o 200 gair)

**20.** Os bydd eich cais yn llwyddiannus, beth fydd yn digwydd i'ch prosiect unwaith y bydd yr arian hwn wedi'i ddefnyddio? (Uchafswm o 200 gair)

**21. Costau'r Prosiect**

Rhowch ddadansoddiad llawn o'r holl gostau. Dylech gynnwys bras amcan o werth unrhyw gefnogaeth mewn nwyddau/gwasanaethau. Os yw costau'r prosiect yn uwch na £2,500 (£5000 ar gyfer prosiectau gogledd Cymru gyfan) nodwch ar gyfer beth fydd ein nawdd ni yn cael ei ddefnyddio.

| Eitem | Cost |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| CYFANSWM | £ |

**22. Ydych chi wedi cael nawdd gan unrhyw noddwr arall? Os do, nodwch gan bwy a'r swm a gafwyd.**

## AR GYFER YMGEISWYR SY'N GWNEUD CAIS AM GRANT O £5,000

**23.** Dywedwch wrthym ym mha siroedd y byddwch yn gweithio ac am allu eich sefydliad i gyflawni'r amcanion yn eich cynnig a'r strwythur sydd wedi'i sefydlu i gefnogi cymunedau lleol. (Uchafswm o 300 gair)

# ATODIAD A

**Bydd y Telerau ac Amodau canlynol yn berthnasol i bob cais llwyddiannus**
Mae'n rhaid i'r ddogfen hon gael ei **llofnodi a'i hardystio** a'i dychwelyd cyn i'r arian gael ei ryddhau.

## TELERAU AC AMODAU GRANT AR GYFER PROSIECT

1. Mae 'Prosiect' yn golygu'r prosiect neu'r gweithgaredd y mae'r Noddwr wedi cytuno i roi grant ar ei gyfer fel yn ôl y   urflen gais ynghyd ag unrhyw ddogfennau cefnogi megis gwybodaeth gyllidol, amserlen ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n nodi sut bydd y Prosiect yn cael ei reoli.

2. Mae 'Noddwr' yn golygu Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru ar y cyd.

3. Mae 'Chi' yn golygu'r sefydliad sydd wedi cael grant gan y Noddwr.

4. Dim ond ar gyfer y Prosiect hwn y gellir defnyddio'r grant.

5. Mae'n rhaid i chi gychwyn y Prosiect o fewn un mis i chi gael y taliad cyntaf gennym.

6. Mae'n rhaid i chi wneud cynnydd boddhaol gyda'r Prosiect a'i gwblhau ar amser.

7. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym yn syth os bydd unrhyw beth yn bygwth cwtogi neu ohirio'r Prosiect.

8. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym os cewch arian ar gyfer y Prosiect gan unrhyw   ynhonnell arall ar unrhyw adeg yn ystod y Prosiect. Os bydd hyn yn golygu nad ydych mwyach angen yr arian gennym ni, mae'n rhaid i chi dalu'r grant yn ôl i ni yn syth.

   Os byddwch yn gwario llai na chyfanswm y grant ar y Prosiect, bydd rhaid i chi ddychwelyd y swm sy'n weddill i ni yn brydlon. Os bydd y grant yn ariannu rhan o'r Prosiect, bydd rhaid i chi ddychwelyd cyfran briodol o'r swm nas wariwyd i ni.

9. Mae'n rhaid i chi ysgrifennu atom cyn gynted â phosibl os gwneir neu os oes bygythiad bod hawliad cyfreithiol am ei wneud yn eich erbyn chi a/neu byddai'n cael e  aith ar y Prosiect yn ystod cyfnod y grant (gan gynnwys unrhyw hawliadau yn erbyn aelodau'r cor   llywodraethu neu sta   y sefydliad.)

10. Os ydych yn gr  p anghor  oredig, mae'n rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ni i brofi bod gan yr unigolyn sy'n llofnodi isod awdurdod y gr  p i lofnodi Cytundeb y Grant ar ran aelodau'r gr  p a bod holl aelodau'r gr  p yn atebol ar y cyd ac yn unigol am y Cytundeb Grant.

11. Mae'n rhaid i chi ein hysbysu yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl o unrhyw ymchwiliad i'ch sefydliad, ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, gweithwyr neu wirfoddolwyr sy'n cael ei gynnal gan yr heddlu, y Comisiwn Elusennau, Cyllid a Thollau EM neu unrhyw gor   rheoli arall.

12. Wrth gynnal y Prosiect, mae'n rhaid i chi gydym  urfio â'r holl gyfreithiau sy'n rheoli'r   ordd yr ydych yn gweithredu, y gwaith yr ydych yn ei wneud, y sta   yr ydych yn eu cyflogi neu'r nwyddau a'r gwasanaethau yr ydych yn eu prynu. Er enghraifft, chi fydd yn gyfrifol am drefnu unrhyw drwyddedau, caniatâd ac yswiriant sydd eu hangen yn ôl y gyfraith.

13. Rhaid cyflwyno i'r Noddwr grynodeb ariannol clir sy'n dangos sut mae'r grant wedi'i wario. Rhaid sicrhau bod yr holl anfonebau, derbynebau a chofnodion cyfrifo sy'n ymwneud â gwariant y grant ar gael ar unrhyw adeg resymol i'w harchwilio gan y Noddwr.

14. Dylech gadw cofnod syml o ddatblygiad y prosiect, gan gynnwys lluniau, a dylai fod ar gael ar unrhyw adeg resymol i'w archwilio gan un o swyddogion y Noddwr.

15. **CYN I UNRHYW  DDIGWYDDIAD SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R PROSIECT GAEL EI GYNNAL,** mae'n rhaid i chi gysylltu ag Adran y Wasg a'r Cyfryngau Heddlu Gogledd Cymru er mwyn darparu manylion y fenter.

    Mae'n RHAID i ddatganiadau i'r wasg a deunydd cyhoeddusrwydd gyfeirio at y gefnogaeth ariannol a gafwyd gan: **Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru**

16. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau bod unrhyw oedolyn sy'n cynorthwyo gyda'r prosiect wedi cydym  urfio'n llwyr â'r gofynion diogelwch perthnasol os bydd yn gweithio â phlant a phobl ifanc.

17. Sefydliad sy'n cyflwyno grantiau yn unig yw'r Noddwr ac nid yw'n gyfrifol am unrhyw weithred neu esgeulustod ar ran y rhai hynny sy'n cymryd rhan yn y prosiectau a'r cynlluniau. Cyfrifoldeb y rhai sy'n trefnu'r prosiectau a'r cynlluniau fydd hyn. Mae'n ofynnol i chi ystyried eich cyfrifoldebau cyfreithiol fel trefnwr yn ofalus iawn a threfnu yswiriant priodol.

Os bydd unrhyw un o'r sefyllfaoedd canlynol yn digwydd gallwn ddewis gofyn am y grant yn ôl:

17.1 eich bod yn cau eich busnes i lawr (oni bai ei fod yn ymuno â busnes arall neu fod busnes arall fyddai'n gallu parhau â'r Prosiect yn cymryd drosodd a'n bod ni wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i chi wneud hyn);

17.2 eich bod yn gwneud newidiadau i'r Prosiect heb yn gyntaf gael ein caniatâd ni yn ysgrifenedig;

17.3 eich bod yn defnyddio'r grant ar gyfer rhywbeth arall;

17.4 nad ydych yn dilyn ein cyfarwyddiadau rhesymol;

17.5 nad ydych yn cynnal y Prosiect yn ofalus, trylwyr, cymwys ac i'r safon y disgwylid gan rywun sydd â chymaint o brofiad â chi yn eich galwedigaeth, pro  esiwn neu'ch maes artistig;

17.6 nad ydych yn cwblhau'r Prosiect;

17.7 eich bod wedi rhoi unrhyw wybodaeth i ni sy'n anghywir neu'n gamarweiniol, naill ai drwy gamgymeriad neu oherwydd eich bod yn ceisio ein camarwain;

17.8 eich bod yn cael eich dyfarnu'n fethdalwr, neu os gwneir gorchymyn neu benderfyniad i chi fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, ddirwyn i ben neu ddiddymu; os penodir gweinyddwr neu dderbynnydd, rheolwr, diddymwr, ymddiriedolwr neu swyddog tebyg dros eich holl asedau neu swm sylweddol ohonynt; neu eich bod yn cytuno i, neu'n cynnig dod i drefniant gyda'r bobl y mae arnoch chi arian iddynt;

17.9 eich bod yn ymddwyn yn anghyfreithlon neu'n esgeulus ar unrhyw adeg, a'n bod o'r farn bod hyn wedi cael e  aith sylweddol ar y Prosiect, neu ei fod yn debygol o niweidio ein henw da ni neu chi; ac/neu

17.10 eich bod yn gwerthu neu mewn rhyw   ordd arall yn trosglwyddo'r grant, eich busnes neu'r Prosiect i rywun arall heb yn gyntaf gael ein caniatâd ni yn ysgrifenedig.

18. Bydd y telerau ac amodau hyn a'r Cytundeb Grant yn parhau i fod yn ddilys am ba un bynnag o'r rhain yw'r hiraf:

- un flwyddyn yn dilyn y taliad grant diwethaf;
- cyhyd ac y mae unrhyw ran o'r grant heb ei wario;
- pan na fyddwch yn cyflawni unrhyw un o delerau ac amodau'r Cytundeb grant neu os byddwch yn parhau i'w torri (mae hyn yn cynnwys unrhyw adroddiad ar wariant y grant neu ddarpariaeth y Prosiect sy'n weddill).

19. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ('y Ddeddf') yn berthnasol i ni. Golyga hyn y gallai unrhyw wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i ni gael ei rhyddhau i unrhyw unigolyn sy'n gofyn amdani dan y Ddeddf. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym os ydych yn credu y dylai unrhyw ran o'r wybodaeth honno fod yn gyfrinachol dan unrhyw un o eithriadau'r Ddeddf. Ewch ar www.ico.gov.uk/ i gael mwy o wybodaeth am y Ddeddf.

**EFALLAI Y BYDD ANGEN PRAWF BOD YR AMODAU HYN WEDI'U GWEITHREDU.**

**Enw'r Sefydliad** ..............................................................

**(ENW MEWN LLYTHRENNAU BRAS)** Yr wyf i ..............................................................

wedi darllen y telerau ac amodau uchod, a chytunaf ar ran tîm y prosiect y byddaf yn cadw atynt.

Llofnod: .............................................. Dyddiad: ..............................................

**(LLYTHRENNAU BRAS)** Swydd yn y sefydliad: ..............................................

Wedi'i ardystio gan: (Llofnod) ..............................................

**(LLYTHRENNAU BRAS)** Enw llawn: ..............................................

**(LLYTHRENNAU BRAS)** Swydd yn y sefydliad: ..............................................

**DYLECH DDYCHWELYD Y DDOGFEN HON WEDI'I LLOFNODI AT:-**

Heddlu Gogledd Cymru, Swyddfa PACT, Ffordd William Morgan.
Parc Busnes Llanelwy. Llanelwy. Sir Ddinbych. LL17 0HQ

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU GOGLEDD CYMRU

NORTH WALES POLICE

88466.

GOGLEDD CYMRU PACT NORTH WALES

Mewn cydweithrediad ag

**Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned**

Elusen Gofrestredig Rhif 1071028